Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Practis Deintyddol Teuluol Dwyrain Maesyfed (IDH)

17 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-3961-0


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Methodoleg .......... 2

3. Cyd-destun .......... 4

4. Crynodeb .......... 5

5. Canfyddiadau .......... 6

Profiad y Claf .......... 6

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .......... 8

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 11

Ansawdd yr Amgylchedd .......... 13

6. Y Camau Nesaf .......... 14

Atodiad A .......... 15

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Teuluol Dwyrain Maesyfed (Integrated Dental Holdings – y cyfeirir ato fel IDH yng ngweddill yr adroddiad) yn 3 Wylcwm Place, Trefyclo, Powys, LD7 1AE yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 17 Mehefin 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal[1]. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011[3]. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Teuluol Dwyrain Maesyfed (IDH) yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Nhrefyclo a rhannau cyfagos o Bowys. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Cymerwyd y practis drosodd gan IDH ym mis Awst 2014. Mae gan IDH rwydwaith o fwy na 600 o bractisau deintyddol ledled y DU ar hyn o bryd.[4]

Practis cymysg sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a'r GIG yw Practis Deintyddol Teuluol Dwyrain Maesyfed (IDH).

Mae'r practis yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, rheolwr y practis a thair nyrs ddeintyddol (un nyrs ddeintyddol gymwysedig a dwy dan hyfforddiant).

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Triniaethau deintyddol ataliol
- Triniaethau deintyddol adferol
- Rhai triniaethau deintyddol cosmetig
- Deintyddiaeth breifat a GIG.

[4] Yn ôl y wybodaeth a welwyd gan AGIC yn ystod mis Mai 2015, trwy http://idhgroup.co.uk/patient-services

## 4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut y mae Practis Deintyddol Teuluol Dwyrain Maesyfed yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Roedd y practis yn gallu dangos bod ganddo ddiddordeb mewn dysgu mwy am safbwyntiau cleifion gan i ni weld eu bod yn defnyddio'r dulliau adborth a oedd ar gael iddynt ac yn adolygu canlyniadau'r rhain bob mis. Roeddem yn teimlo y gellid gwella hyn ymhellach trwy ddefnyddio arolwg mwy cynhwysfawr o gael cyfres ehangach o safbwyntiau.

Roedd yr adborth i ni ei dderbyn gan gleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, ac eithrio un sylw negyddol a drafodwyd gyda'r practis yn ystod ein harolygiad.

Canfuwyd gennym fod y practis wedi ystyried pob agwedd ar ddadheintio ac wedi gwneud trefniadau trylwyr ar gyfer gweithdrefnau ac offer dadheintio a lle i gyflawni hyn. Roeddem hefyd o'r farn bod y trefniadau ar gyfer defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel yn foddhaol, ac eithrio'r rheolau lleol y mae angen eu gwella. Roedd y trefniadau gwaredu gwastraff yn foddhaol hefyd.

Roedd y sampl o nodiadau clinigol i ni eu gweld yn dangos safon uchel o ran cadw cofnodion ac mae trefniadau da ar waith ar gyfer cyflenwi offer brys ac ar gyfer sicrhau bod staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf a dadebru perthnasol.

Mae'r tîm sy'n gweithio ym Mhractis Deintyddol Teuluol Dwyrain Maesyfed yn fach a chanfuwyd gennym ei fod yn hynod drefnus. Mae systemau rheoli IDH wedi'u hymsefydlu'n dda yn yr arfer o ddydd i ddydd a welwyd gennym a siaradodd y staff yn hyderus am bolisïau a gweithdrefnau, ac roeddent hefyd yn eu defnyddio'n hyderus yn eu gwaith yn y meysydd i ni eu gweld. Rydym wedi awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth i greu rhagor o gyfleoedd dysgu i staff yn y rhwydwaith lleol o bractisau IDH eraill ac yn y practis ei hun trwy gyfarfodydd tîm.

Mae amgylchedd y practis yn fach ond roedd yn ymddangos ei fod yn lân ac yn daclus. Mae mannau storio'n brin ac mae lle y tu allan i'r ddwy ddeintyddfa i reolwr y practis weithio wrth gyfrifiadur yn brin hefyd. Dylid ailystyried y dull o storio ffeiliau ac offer glanhau er mwyn sicrhau y gall staff gael gafael arnynt yn ddiogel pan fo'u hangen.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Roedd y practis yn gallu dangos bod ganddo ddiddordeb mewn dysgu mwy am safbwyntiau cleifion gan i ni weld eu bod yn defnyddio'r dulliau adborth a oedd ar gael iddynt ac yn adolygu canlyniadau'r rhain bob mis. Roeddem yn teimlo y gellid gwella hyn ymhellach trwy ddefnyddio arolwg mwy cynhwysfawr o gael cyfres ehangach o safbwyntiau.**

**Roedd yr adborth i ni ei dderbyn gan gleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, ac eithrio un sylw negyddol a drafodwyd gyda'r practis yn ystod ein harolygiad.**

Ein prif ddull o gasglu barn y cleifion ar gyfer yr arolygiad hwn oedd trwy ddosbarthu holiaduron, wedi'u hargraffu ymlaen llaw, i gleifion cyn ein hymweliad arolygu. Cwblhawyd a dychwelwyd pump ar hugain i ni.

Roedd yr adborth i ni ei dderbyn yn gadarnhaol iawn ar y cyfan; derbyniwyd un sylw negyddol a oedd yn ymwneud â'r croeso a roddir gan y staff a thrafodwyd hyn gyda'r practis yn ystod ein harolygiad gan ofyn iddynt ystyried a oes unrhyw agweddau y gellid eu gwella. Rhoddwyd caniatâd inni gan y rhai a ymatebodd i'n holiadur ddefnyddio'r wybodaeth yr oeddent wedi'i rhoi inni. Rydym wedi cynnwys sampl o'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd isod:

> *"Mae gan y tîm clinigol wybodaeth ragorol."*
>
> *"Mae'r holl staff yn wych ac yn gwneud i chi deimlo'n gyfforddus."*
>
> *"Rwy'n derbyn triniaeth dda ac mae'r staff yn barod eu cymwynas."*

Edrychwyd hefyd ar y ffordd y mae'r practis yn ymgysylltu â'i gleifion fel y gall ddysgu o'r adborth y mae'n ei dderbyn. Nodwyd gennym fod ffurflenni adborth gwag ar gael yn y dderbynfa y gall cleifion eu defnyddio i wneud sylwadau. Fe'n hysbyswyd mai prin iawn yw'r sylwadau a dderbynnir fel hyn; fodd bynnag, mae dal i fod yn arfer da cadw'r cyfleuster hwn ar gael. Fel practis IDH, gwelsom fod rhai o'u systemau corfforaethol ar gyfer gofyn am adborth cleifion wedi eu hymsefydlu ac roedd yn ymddangos eu bod yn cael eu defnyddio'n dda. Er enghraifft, mae'r cwmni yn anfon negeseuon testun ôl-apwyntiad ar hap at gleifion, yn gofyn iddynt roi eu barn ar eu profiadau ac mae rheolwr y practis yn

edrych ar y wybodaeth hon bob mis ac yn rhannu’r canlyniadau gyda’i staff. Efallai yr hoffai’r practis ystyried cynnal arolwg blynyddol o safbwyntiau cleifion a allai gynnig adborth mwy cynhwysfawr na’r negeseuon testun a’r ffurflenni adborth a ddefnyddir ar hyn o bryd.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Canfuwyd gennym fod y practis wedi ystyried pob agwedd ar ddadheintio ac wedi gwneud trefniadau trylwyr ar gyfer gweithdrefnau ac offer dadheintio a lle i gyflawni hyn. Roeddem hefyd o'r farn bod y trefniadau ar gyfer defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel yn foddhaol, ac eithrio'r rheolau lleol y mae angen eu gwella. Roedd y trefniadau gwaredu gwastraff yn foddhaol hefyd.**

**Roedd y sampl o nodiadau clinigol i ni eu gweld yn dangos safon uchel o ran cadw cofnodion ac mae trefniadau da ar waith ar gyfer cyflenwi offer brys ac ar gyfer sicrhau bod staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf a dadebru perthnasol.**

Ystyriwyd pa mor agos y mae'r practis yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal. Yn benodol, ystyriwyd ansawdd a phriodoldeb y trefniadau ar gyfer:

- Dadheintio offerynnau
- Defnyddio offer radiograffig yn ddiogel
- Cael gwared ar wastraff yn ddiogel
- Safon y cofnodion yn nodiadau'r cleifion a'r dystiolaeth o ofal clinigol y mae'r rhain yn eu darparu
- Ymdrin ag unrhyw achosion brys lle gallai fod angen cymorth cyntaf neu driniaeth feddygol bellach.

### Dadheintio

Canfuwyd gennym fod trefniadau boddhaol ar waith ar gyfer dadheintio offerynnau, a fyddai'n lleihau peryglon croes-heintio pe baent yn cael eu dilyn yn gywir ac yn gyson.

Nodwyd gennym fod cynllun yr ystafell ddadheintio'n dda ac yn galluogi'r llif gwaith budr i lân priodol fel y nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.[5]

Siaradwyd â'r staff sy'n cymryd rhan yn y broses ddadheintio a chanfuwyd eu bod yn hyderus yn y broses a bod ganddynt ddigon o wybodaeth i awgrymu y gallent ddilyn polisi a gweithdrefn y practis ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau.

Nodwyd gennym fod y practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'u harfer rheoli heintiau ac yn cymryd camau yn sgil unrhyw ganfyddiadau a wnaed.

Awgrymwyd gennym y dylai'r practis sicrhau bod pob sinc golchi dwylo yn cael ei labelu'n eglur a chael gwared neu newid un o'r ffyrnau aerglos yn yr ystafell ddadheintio, nad oedd wedi bod yn gweithio ers cryn amser, er mwyn gwella safonau dadheintio ymhellach.

**Defnydd o Offer Radiograffeg**

Yn seiliedig ar y canfyddiadau canlynol, roeddem yn gallu dod i'r casgliad bod trefniadau boddhaol ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel:

- Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gywir am y defnydd o offer radiograffig ar y safle
- Gwelsom fod lleoliad yr offer a'r swîts gweithredu yn briodol ac yn galluogi defnydd diogel
- Gwelsom fod yr offer pelydr X yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd gan beirianwyr wedi'u hyfforddi'n briodol. Gwelsom y rhoddwyd gorau i ddefnyddio un peiriant ychydig cyn ein hymweliad oherwydd pryderon am ei ddiogelwch a bod y practis yn aros i beiriannydd ymweld fel mater o frys. Roeddent yn gallu defnyddio'r peiriant pelydr X yn y ddeintyddfa arall tan i'r un yma gael ei drwsio.
- Pan roedd archwiliadau pelydr X wedi'u cynnal, nodwyd gennym o'r sampl o gofnodion i ni ei weld bod y rheswm am eu cynnal wedi cael ei gofnodi a bod y delweddau wedi cael eu gwerthuso.

[5] Memorandwm Technegol Iechyd Cymru yw WHTM 01-05, dogfen ganllawiau sy'n nodi'r safonau i'w dilyn gan bractisau deintyddol gofal sylfaenol o ran dadheintio a rheoli heintiau.

- Gwelsom fod rheolau lleol[6] ar waith; fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi cael eu teilwra'n briodol i adlewyrchu'r gofynion unigol sydd eu hangen ar gyfer pob deintyddfa.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Teilwra rheolau lleol yn gywir i bob deintyddfa.***

Edrychwyd ar sampl o nodiadau tri chlaf ar gyfer pob deintydd sy'n gweithio yn y practis. Mae hyn yn golygu ein bod wedi edrych ar chwe set o gofnodion. Canfuwyd gennym fod safon dda o gofnodion yn amlwg ar draws y sampl hon. Roedd y nodiadau'n gynhwysfawr ac yn drylwyr. Canfuwyd gennym fod archwiliadau o safonau cadw cofnodion yn cael eu cynnal yn rheolaidd a chanfuwyd tystiolaeth gennym hefyd i ddangos y cymerwyd camau yn sgil canfyddiadau'r rhain. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd caniatâd cleifion yn cael ei gofnodi a thrafodwyd hyn ar adeg ein harolygiad. Awgrymwyd gennym hefyd, er mwyn gwella nodiadau ymhellach, y gallai'r deintyddion ystyried cofnodi manylion ychwanegol yn ymwneud â sgrinio canser a chofnodi archwiliadau peridontol llinell sylfaen (cofnodi BPE) ymhlith cleifion o saith mlwydd oed ymlaen. Mae hyn yn unol â chanllawiau arfer gorau gan Gymdeithas Periodontoleg Prydain.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Sicrhau y cofnodir caniatâd cleifion mewn nodiadau triniaeth.***

Gwelsom dystiolaeth o gontractau ar gyfer cael gwared ar wastraff y practis yn ddiogel ac fe'n hysbyswyd am sut y mae'n rheoli gwastraff o ddydd i ddydd; roedd yn ymddangos bod y ddau drefniant yn foddhaol.

Gwelsom y cofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod dau aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant 'cymorth cyntaf yn y gweithle' a chofnodion yn dangos bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant dadebru ac ymdrin ag achosion brys yn ddiweddar. Mae hyn yn dynodi y dylai'r staff fod yn gymwys i reoli sefyllfaoedd brys na ellir eu rhagweld sy'n codi yn y practis. Mae gan y staff fynediad at becyn argyfwng cyflawni ac mae prif swyddfa IDH yn cymryd cyfrifoldeb am ddiweddaru ei gynnwys yn ôl y gofyn.

---

[6] Cyfres ysgrifenedig o gyfarwyddiadau gweithio allweddol yw Rheolau Lleol, sy'n orfodol ac y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hamlygu cyn lleied â phosibl i offer radiograffig.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Mae'r tîm sy'n gweithio ym Mhractis Deintyddol Teuluol Dwyrain Maesyfed yn fach a chanfuwyd gennym ei fod yn hynod drefnus. Mae systemau rheoli IDH wedi'u hymsefydlu'n dda yn yr arfer o ddydd i ddydd a welwyd gennym a siaradodd y staff yn hyderus am bolisïau a gweithdrefnau, ac roeddent hefyd yn eu defnyddio'n hyderus yn eu gwaith yn y meysydd i ni eu gweld. Rydym wedi awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth i greu rhagor o gyfleoedd dysgu i staff yn y rhwydwaith lleol o bractisau IDH eraill ac yn y practis ei hun trwy gyfarfodydd tîm.**

Mae Practis Deintyddol Teuluol Dwyrain Maesyfed wedi bod mewn perchnogaeth gorfforaethol ers 2008, o dan Denticare yn gyntaf ac, yn fwy diweddar (Awst 2014), dan IDH. Cyn hynny, roedd yn bractis mewn perchnogaeth breifat ac mae'r prif ddeintydd o'r cyfnod hwn yn dal i fod yn rhan o'r tîm.

### Rheolaeth staff gyffredinol

Mae IDH wedi sefydlu systemau ar gyfer rheoli staff ac mae cyfarfodydd tîm rheolaidd a gwerthusiadau blynyddol yn rhan graidd o hyn. Gwelsom fod y tîm ym Mhractis Deintyddol Dwyrain Maesyfed yn cydymffurfio â'r systemau a nodwyd gan IDH ac roeddem yn gallu gweld cofnodion cyfarfodydd tîm a thystiolaeth o werthusiadau a gwblhawyd ac a drefnwyd i gael eu cynnal. Roedd cofnodion cyfarfodydd tîm wedi'u cofnodi ar yr hyn a ddywedwyd wrthym oedd yn dempledi safonol ar gyfer cyfarfodydd tîm. Roedd y cofnodion i ni eu gweld yn fanwl a gallem weld tystiolaeth fod staff wedi derbyn nodiadau yn eu hatgoffa am bolisïau a gweithdrefnau a oedd yn dod i rym. Fodd bynnag, roedd pwyslais y cofnodion i ni eu gweld ar gyrraedd targedau ac agweddau ariannol ar y busnes. Er bod y rhain yn bwysig, dylai datblygiad y tîm a'r ddarpariaeth o ofal o ansawdd fod yn flaenoriaeth uchel hefyd. Awgrymwyd y gallai rheolwr y practis a thîm rheoli'r ardal ystyried datblygu rhwydwaith dysgu ar gyfer nyrsys deintyddol IDH sy'n gweithio yn yr ardal a'u bod hefyd yn rhoi ystyriaeth i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth gref mewn cyfarfodydd tîm.

### Polisïau a gweithdrefnau

Canfuwyd fod yr holl bolisiau a gweithdrefnau sydd eu hangen i redeg y practis yn effeithiol ar waith. Atgoffwyd y staff gennym ei fod yn arfer da sicrhau bod pob polisi wedi'i ddyddio ac y rhoddir rhif fersiwn iddynt fel y gall staff fod yn siŵr eu bod yn edrych ar y wybodaeth ddiweddaraf.

## Hyfforddiant staff

Edrychwyd ar ffeiliau hyfforddiant y staff a chanfuwyd tystiolaeth gennym fod pynciau hyfforddiant craidd yn cael sylw ac yn cael eu cwblhau. Gwelsom dystiolaeth fod proses sefydlu a ddilynir ar gyfer staff newydd.

Nodwyd gennym fod y staff wedi cwblhau rhywfaint o ddysgu am bwnc diogelu oedolion a phlant ond nad oedd yr un ohonynt wedi bod mewn cyrsiau yn bersonol ers cryn amser. Fe'n hysbyswyd y bu prinder cyrsiau y gellir eu mynychu yn bersonol ym Mhowys, ond bod y bwrdd iechyd yn gweithio i fynd i'r afael â hyn ar frys. Yn y cyfamser, nodwyd gennym hefyd nad oedd gan y practis y weithdrefn leol i'w dilyn os bydd angen iddo godi pryderon diogelu oedolion neu blant a chytunasant i gael gafael ar gopi ar unwaith.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Sicrhau bod copi o'r weithdrefn leol ar gyfer codi pryder diogelu oedolion neu blant ar gael i'r staff a sicrhau bod y staff yn cael eu cynorthwyo i ddeall y broses.***

## Pryderon / Cwynion

Mae'r practis yn monitro sgôr bodlonrwydd eu cleifion yn ymarferol, a chymerir hwn o ddadansoddiad o negeseuon ôl-apwyntiad ar hap dros gyfnod o fis. Fe'n hysbyswyd nad ydynt erioed wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol. Hysbyswyd y practis gennym y dylid cofnodi'r holl adborth, cadarnhaol a negyddol, fel y gellir adolygu materion sy'n cael eu codi'n ddiweddarach a mynd i'r afael ag anghysondebau, hyd yn oed os ymdriniwyd â'r materion hyn ar unwaith.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Cofnodi'r holl bryderon a chanmoliaeth a dderbynnir gan y practis.***

Adolygwyd y polisi cwynion sydd ar gael a chanfuwyd ei fod yn cynnwys manylion gweithdrefnau i'w dilyn yn Lloegr nad ydynt yn berthnasol i gleifion yng Nghymru. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr ardal a ddiwygiodd y copi lleol tra'r oeddem ar y safle ac fe'n hysbyswyd ganddi hefyd ei bod wrthi'n gweithio gydag uwch reolwyr i adolygu'r holl bolisiau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu canllawiau a rheoliadau yng Nghymru.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Mae amgylchedd y practis yn fach ond roedd yn ymddangos ei fod yn lân ac yn daclus. Mae mannau storio'n brin ac mae lle y tu allan i'r ddwy ddeintyddfa i reolwr y practis weithio wrth gyfrifiadur yn brin hefyd. Dylid ailystyried y dull o storio ffeiliau ac offer glanhau er mwyn sicrhau y gall staff gael gafael arnynt yn ddiogel pan fo'u hangen.**

Canfuwyd gennym ei bod yn ymddangos bod y practis yn lân ac yn daclus. Nodwyd gennym fod y dderbynfa'n fach ac mai hwn hefyd oedd yr un fan yn y practis lle ceir lle ar gyfer desg a rennir gan y derbynnydd a rheolwr y practis. Ceir un cwpwrdd storio lle caiff y ddau gwpwrdd ffeiliau yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau, yn ogystal ag offer glanhau amrywiol, ei storio. Hysbyswyd y practis i ailystyried y man hwn er mwyn sicrhau mai dyma'r defnydd mwyaf priodol o'r lle prin sydd ar gael.

Roedd yr ystafell aros yn gynnes iawn ar ddiwrnod ein harolygiad a gallai fod wedi teimlo'n anghyfforddus i rai pobl. Ceir ali lydan nesaf at fynedfa'r practis â chwrt bach agored yn y cefn ac rydym wedi awgrymu bod y practis yn ystyried darparu seddi (sy'n briodol o ystyried y lleoliad a mynediad y tu allan i oriau i'r man) y gallai staff a chleifion eu defnyddio yn ôl yr angen.

Mae'r practis yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn trwy ramp ac mae'r cwbl ar lefel llawr daear y tu mewn. Ceir toiled mawr at ddefnydd y cleifion hefyd.

Nodwyd gennym fod draen heb ei gorchuddio y tu allan i'r brif fynedfa a allai achosi perygl o faglu a chytunodd y practis i roi sylw i hyn ar unwaith.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Sicrhau bod y draen y tu allan i ddrws y fynedfa yn cael ei wneud yn ddiogel***

Nodwyd gennym nad oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos ar waliau'r dderbynfa ac fe'n hysbyswyd bod y waliau wedi cael eu hail-beintio'n ddiweddar. Fe'n hysbyswyd gan reolwr y practis y disgwyliwyd i staff cynnal a chadw ddychwelyd i orffen y gwaith trwy roi bachau ar y wal fel y gellid arddangos gwybodaeth. Nodwyd gennym mai ychydig oedd yn yr ystafell aros i ddiddanu plant ac awgrymwyd y dylid manteision ar hwn fel cyfle i arddangos lluniau a gwybodaeth sy'n briodol i blant, ymhlith pethau eraill.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr hyn sydd angen ei wella. Mae'r manylion hyn i’w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Teuluol Dwyrain Maesyfed yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Teuluol Dwyrain Maesyfed (IDH)

## Dyddiad yr Arolygiad: 17 Mehefin 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 10 | Teilwra rheolau lleol yn gywir i bob deintyddfa. | Bydd Rheolwr y Practis yn cwblhau Holiadur Asesu Risg Offer cyfredol ar gyfer pob un o beiriannau pelydr X y ddeintyddfa dan gyfarwyddyd y Goruchwylwyr Amddiffyn Ymbelydredd a/neu Gynghorydd Amddiffyn Ymbelydredd yn ôl yr angen.<br><br>Bydd yr asesiadau risg hyn yn cael eu defnyddio wedyn i ddiweddaru'r rheolau lleol gyda'r offer cywir, manylion y Goruchwylydd Amddiffyn Ymbelydredd, manylion cyswllt y Cynghorydd Amddiffyn Ymbelydredd a bydd unrhyw fanylion perthnasol yn ymwneud â defnyddio'r offer a | Rheolwr y Practis | 24/08/15 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | threfniadau paratoi unigol yn cael eu nodi'n eglur yn y rheolau lleol. Bydd y rheolau lleol hyn yn cael eu harddangos nesaf at y peiriannau pelydr X ym mhob un o'r deintyddfeydd wedyn. | | |
| 10 | Sicrhau y cofnodir caniatâd cleifion mewn nodiadau triniaeth. | Bydd Rheolwr y Practis yn amlygu'r materion a godwyd o ran cymryd nodiadau clinigol gyda'r Cyfarwyddwr Clinigol ac yn trefnu iddo dreulio rhywfaint o amser gyda'r deintyddion i helpu a chefnogi'r gwelliannau sydd eu hangen.<br><br>Bydd Rheolwr y Practis yn cynnal cyfarfod gyda'r holl staff i drafod pwysigrwydd cofnodi caniatâd ysgrifenedig a thrafod caniatâd llafar gyda chleifion. Bydd y staff yn sicrhau yn y dyfodol y gofynnir am ganiatâd llafar ym mhob apwyntiad cyn triniaeth a'i fod yn cael ei gofnodi yn nodiadau clinigol y cleifion ar y system ddeintyddol.<br><br>Bydd Rheolwr y Practis yn mynd trwy ganlyniadau'r Archwiliad Cardiau Cofnod ac yn sicrhau y defnyddir templed archwilio'r cwmni yn y practis. Mae templed archwilio'r cwmni yn cynnwys archwiliadau fel sgrinio canser, cofnodi | Rheolwr y Pracis | 24/08/15 ac yn barhaus |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | sgoriau archwiliadau periodontol Sylfaenol a chofnodi caniatâd ysgrifenedig a llafar cleifion. Caiff y canlyniadau o'r archwiliadau eu rhannu gyda'r Cyfarwyddwr Clinigol a bydd cyfarfodydd dilynol yn cael eu cynnal gyda'r deintyddion. Bydd y deintyddion yn derbyn cynllun gweithredu unigol i'w helpu i wella yn y meysydd hyn. Caiff y cynlluniau gweithredu hyn eu hailasesu trwy archwiliad arall ymhen 3 mis. | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 12 | Sicrhau bod copi o'r weithdrefn leol ar gyfer codi pryder diogelu oedolion neu blant ar gael i'r staff a sicrhau bod y staff yn cael eu cynorthwyo i ddeall y broses. | Bydd Rheolwr y Practis yn cynnal cyfarfod tîm i fynd drwy'r prosesau diogelu lleol a phrosesau'r cwmni fel bod yr holl staff yn eglur am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau pe bai mater diogelu'n codi.<br><br>Bydd polisïau diogelu Amddiffyn Plant ac Oedolion Agored i Niwed y cwmni yn cynnwys copi o'r protocol diogelu lleol yn ogystal â phrotocol digwyddiad arwyddocaol y cwmni y bydd Rheolwr y Practis yn ei ddilyn os bydd digwyddiad diogelu.<br><br>Hefyd, bydd Arweinydd Diogelu'r practis yn cael ei enwi gan Reolwr y Practis ym manylion diogelu lleol y practis fel bod y staff yn gwybod pwy | Rheolwr y Pracis | 07/08/15 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | ddylent eu hysbysu am unrhyw broblemau.<br><br>Bydd y protocol diogelu lleol yn cael ei arddangos yn yr ystafell staff.<br><br>Bydd yr holl staff yn cwblhau’r hyfforddiant Diogelu Plant ac Oedolion ar system rheoli dysgu ar-lein y cwmni yn flynyddol.<br><br>Bydd Rheolwr y Practis yn cadw cofnod hyfforddiant ar gyfer yr holl staff er mwyn sicrhau y cwblheir hyfforddiant y cwmni’n flynyddol. | | |
| 12 | Cofnodi’r holl bryderon a chanmoliaeth a dderbynnir gan y practis. | Bydd Rheolwr y Practis yn cofnodi pob math o gŵyn, pa un a yw’n ffurfiol, yn anffurfiol, yn llafar neu’n adborth ar system ar-lein y cwmni. Mae hyn yn golygu bod y wybodaeth a dderbynnir o gwynion/adborth yn cael ei chofnodi mewn un man canolog fel y gall Rheolwr y Practis a’r Tîm Cymorth Cleifion ddadansoddi/gwirio ar gyfer unrhyw themâu ac yn cael ei storio mewn un man canolog.<br><br>Bydd Rheolwr y Practis yn rhannu’r wybodaeth hon gyda’r tîm yn ystod cyfarfodydd tîm misol wedyn. Bydd unrhyw themâu a’r hyn a ddysgir o gwynion ac adborth yn cael eu rhannu a’u gweithredu i helpu i wella’r gwasanaeth i gleifion. Bydd y rhain hefyd yn cael eu harddangos yn yr ystafell aros fel bod cleifion yn ymwybodol o | Rheolwr y Practis | Ar unwaith a pharhaus |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | unrhyw welliannau yn sgil eu hadborth. | | |
| 13 | Sicrhau bod y draen y tu allan i ddrws y fynedfa yn cael ei wneud yn ddiogel | Cysylltodd Rheolwr y Practis ag adran Cyfleusterau'r cwmni a gorchuddiwyd y draen fel mater o frys gyda gorchudd sefydlog i sicrhau bod y fynedfa i'r practis yn ddiogel. | Rheolwr y Practis | Cwblhawyd ar unwaith |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** .........Corryne Harris...........................................................

**Teitl:** .........Rheolwr y Practis...................................................

**Dyddiad:** ..........23/07/15...............................................................